O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 632 (Cy. 72)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Twbercwlosis (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1379 (Cy. 122)) ("Gorchymyn 2010") a Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (O.S. 2011/692 (Cy. 104)) ("Gorchymyn 2011"). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo milfeddygon i gynnal profion diagnostig penodol ar gyfer twbercwlosis (profion perthnasol) ar anifeiliaid buchol, ac anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol, ac i archwilio a marcio'r anifeiliaid hynny. Mae'n darparu ar gyfer gofynion awtomatig i fod yn gymwys i geidwad pan fo prawf perthnasol yn datgelu adweithydd neu adweithydd amhendant.

Mae erthyglau 2(2) a 3(2) yn cyflwyno i Orchmynion 2010 a 2011, yn y drefn honno, ddiffiniad newydd o "milfeddyg cymeradwy" ac yn diwygio'r diffiniad o "prawf perthnasol".

Mae erthyglau 2(3) a 3(3) yn darparu i Weinidogion Cymru gymeradwyo milfeddygon.

Mae erthygl 2(4) yn diwygio erthygl 12 o Orchymyn 2010, ac mae erthygl 3(4) yn diwygio erthygl 9 o Orchymyn 2011, drwy fewnosod—

(a) paragraff newydd yn lle paragraff (3) sy'n nodi'r amgylchiadau pan fo'r gofynion a nodir ym mharagraff (3A) yn gymwys i'r ceidwad;

(b) paragraff (3B) newydd sy'n darparu ar gyfer arolygydd i ddiwygio neu i ddatgymhwyso gofynion penodol drwy hysbysiad ar unrhyw adeg;

(c) paragraff (8) newydd sy'n darparu ar gyfer adrodd ar ganlyniad prawf nad yw'n negyddol i Weinidogion Cymru.

Mae erthygl 2(5) yn galluogi milfeddyg cymeradwy i gynnal profion cyn symud ar anifeiliaid buchol.

Mae erthyglau 2(7) a 3(6) yn galluogi milfeddyg cymeradwy i farcio, neu roi cyfarwyddyd i'r ceidwad farcio, anifeiliaid buchol ac anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol, yn y drefn honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 632 (Cy. 72)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Twbercwlosis (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

*Gwnaed* *12 Mawrth 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *14 Mawrth 2014*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 8(1), 15(4), 25 ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2014.

### Diwygiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 1 o Ddeddf 1981, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd O.S. 2004/3044. Mae'r swyddogaethau hynny, a oedd yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2010/1379 (Cy. 122), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2012/2897.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o “mangre” mewnosoder—

“ystyr “milfeddyg cymeradwy” (“*approved veterinary inspector*”) yw milfeddyg a gymeradwyir yn unol ag erthygl 2A;”; a

(b) yn lle'r diffiniad o “prawf perthnasol” rhodder—

“ystyr “prawf perthnasol” (“*relevant test*”) yw—

(a) prawf croen; neu

(b) unrhyw brawf diagnostig arall ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru;”.

(3) Ar ôl erthygl 2 mewnosoder—

“**Cymeradwyo milfeddygon**

**2A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo milfeddyg—

(a) pan fo'r milfeddyg wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod y milfeddyg yn addas i gyflawni swyddogaethau a roddir i filfeddyg cymeradwy gan y Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ddirymu'r gymeradwyaeth honno, gan roi rhesymau am y dirymiad.”

(4) Yn erthygl 12 (profi ar gyfer twbercwlosis)—

(a) ym mharagraff (2) ar ôl y geiriau “ofynion rhesymol arolygydd” mewnosoder “neu filfeddyg cymeradwy”;

(b) yn is-baragraff (a) o baragraff (2) ar ôl y gair “arolygydd” mewnosoder “neu filfeddyg cymeradwy”;

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae'r gofynion ar y ceidwad ym mharagraff (3A) yn gymwys—

(a) pan fo prawf perthnasol wedi ei gynnal ar anifail buchol;

(b) pan fo arolygydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniad y prawf hwnnw ac wedi mynegi’r canlyniad hwnnw i’r ceidwad; ac

(c) pan fo'r arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy wedi ei fodloni bod darlleniad y prawf yn datgelu bod yr anifail buchol naill ai'n adweithydd, neu'n adweithydd amhendant.

(3A) Y gofynion yw—

(a) na symudir anifail buchol ar y fangre neu o'r fangre lle cedwir yr adweithydd neu'r adweithydd amhendant ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd;

(b) sicrhau bod pob adweithydd ac adweithydd amhendant wedi ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill;

(c) caniatáu i bob adweithydd gael ei farcio gan y person a ddarllenodd y prawf perthnasol neu gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru;

(ch) peidio â rhoi unrhyw laeth gan fuwch odro sy'n adweithydd mewn tanc llaeth swmp; a

(d) pan fo'r adweithydd yn preswylio mewn mangre gyda buches odro, hysbysu pob prynwr masnachol sy'n prynu llaeth o'r fuches honno bod y fuches odro wedi colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis.

(3B) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad, ddiwygio neu ddatgymhwyso y gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (3A)(a) neu (b) ar unrhyw adeg."; a

(d) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

"(8) Rhaid i'r arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy sy'n darllen canlyniad prawf perthnasol sy'n datgelu adweithydd neu adweithydd amhendant adrodd ar y canlyniad prawf hwnnw i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol.

(9) Yn yr erthygl hon—

ystyr "adweithydd amhendant" ("*inconclusive reactor*") yw anifail buchol sy'n datgelu darlleniad nad yw'n negyddol pan gaiff ei brofi ar gyfer twbercwlosis, ond ni chaiff ei ystyried yn adweithydd; ac

ystyr "colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis" ("*loss of tuberculosis-free status*") yw nad yw'r fuches bellach yn bodloni'r amodau a osodir yn Atodiad A.I, paragraffau 1 a 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach ryng-Gymunedol mewn anifeiliaid buchol ac anifeiliaid o deulu'r mochyn."

(5) Yn erthygl 13 (profion cyn symud)—

(a) ym mharagraff (1)(b) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy"; a

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan nad yw darlleniad y prawf ym mharagraff (1)(b) yn datgelu canlyniad

negyddol ar gyfer twbercwlosis mae'r gofynion yn erthygl 12(3A) yn gymwys.”

(6) Ym mharagraff (1) o erthygl 14 (cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis) ar ôl “arolygydd” mewnosoder “neu filfeddyg cymeradwy”.

(7) Yn erthygl 21 (marcio anifeiliaid buchol)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan arolygydd neu filfeddyg cymeradwy rhaid i'r ceidwad farcio unrhyw anifail buchol yn y modd sy'n ofynnol gan yr arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy.”; a

(b) ym mharagraff (2) ar ôl “arolygydd” mewnosoder “neu'r milfeddyg cymeradwy”.

**Diwygiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o “mangre” mewnosoder—

“ystyr “milfeddyg cymeradwy” (“*approved veterinary surgeon*”) yw milfeddyg a gymeradwyir yn unol ag erthygl 2A;”; a

(b) yn lle'r diffiniad o “prawf perthnasol” rhodder—

“ystyr “prawf perthnasol” (“*relevant test*”) yw—

(a) prawf croen; neu

(b) unrhyw brawf diagnostig arall ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru;”.

(3) Ar ôl erthygl 2 mewnosoder—

**“Cymeradwyo milfeddygon**

**2A**.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo milfeddyg—

(a) pan fo'r milfeddyg wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod y milfeddyg yn addas i gyflawni swyddogaethau a roddir i filfeddyg cymeradwy gan y Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ddirymu'r gymeradwyaeth honno, gan roi rhesymau am y dirymiad.”

(4) Yn erthygl 9 (profi ar gyfer twbercwlosis)—

---

(**1**) O.S. 2011/692 (Cy. 104).

(a) ym mharagraff (2) ar ôl y geiriau “ofynion rhesymol arolygydd” mewnosoder “neu filfeddyg cymeradwy”;

(b) yn is-baragraff (a) o baragraff (2) ar ôl y gair “arolygydd” mewnosoder “neu filfeddyg cymeradwy”;

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae’r gofynion ar y ceidwad ym mharagraff (3A) yn gymwys—

(a) pan fo prawf perthnasol wedi ei gynnal ar anifail nad yw'n anifail buchol;

(b) pan fo arolygydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniad y prawf hwnnw ac wedi mynegi’r canlyniad hwnnw i’r ceidwad; ac

(c) pan fo'r arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy wedi ei fodloni bod darlleniad y prawf yn datgelu bod yr anifail nad yw'n anifail buchol naill ai'n adweithydd, neu'n adweithydd amhendant.

(3A) Y gofynion yw—

(a) na symudir anifail nad yw’n anifail buchol ar y fangre neu o'r fangre lle cedwir yr adweithydd neu'r adweithydd amhendant ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd;

(b) sicrhau bod pob adweithydd ac adweithydd amhendant wedi ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill;

(c) caniatáu i bob adweithydd gael ei farcio gan y person a ddarllenodd y prawf perthnasol neu gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru;

(ch) peidio â rhoi unrhyw laeth gan adweithydd mewn tanc llaeth swmp; a

(d) pan fo'r adweithydd yn preswylio mewn mangre gyda buches odro, hysbysu pob prynwr masnachol sy'n prynu llaeth o’r fuches honno bod adweithydd wedi ei ddarganfod yn y fangre.

(3B) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad, ddiwygio neu ddatgymhwyso y gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (3A)(a) neu (b) ar unrhyw adeg.”; a

(d) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

“(8) Rhaid i’r arolygydd neu’r milfeddyg cymeradwy sy'n darllen canlyniad prawf perthnasol sy'n datgelu adweithydd neu adweithydd amhendant adrodd ar y canlyniad

prawf hwnnw i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol.

(9) Yn yr erthygl hon ystyr "adweithydd amhendant" ("*inconclusive reactor*") yw anifail nad yw'n anifail buchol sy'n datgelu darlleniad nad yw'n negyddol pan gaiff ei brofi ar gyfer twbercwlosis, ond na chaiff ei ystyried yn adweithydd."

(5) Ym mharagraff (1) o erthygl 10 (cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy".

(6) Yn erthygl 16 (marcio a symud anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan arolygydd neu filfeddyg cymeradwy rhaid i'r ceidwad farcio unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol yn y modd sy'n ofynnol gan yr arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy";

(b) ym mharagraff (2) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy"; ac

(c) ym mharagraff (4) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy".

*Alun Davies*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2014